# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 27
HYDREF 2009

Yn gynharach eleni cyhoeddwyd cyfrol o Ysgrifau Cristnogol gan y Parchedig Ddr Vivian Jones a fu'n weinidog yn yr Allt-wen, Cwmtawe am rai blynyddoedd cyn iddo fynd i weinidogaethu yn yr Unol Daleithiau. Mae'n gyfrol hynod ddiddorol a darllenadwy a chefais flas anghyffredin ar yr ysgrif olaf yn y gyfrol, sy'n dwyn y teitl "Diolch." A ninnau bellach ynghanol y "Tymor Diolchgarwch" mae'r ysgrif wedi bod o gymorth mawr wrth gofio na fu'r wythnosau diwethaf yn gyfnod hapus i nifer helaeth o bobl a hynny am sawl rheswm. Gwyddom am aelodau a chyfeillion sydd o dan bwysau a gofid mawr, rhaid oedd i eraill ddioddef profedigaethau anhymig a bellach cawsom ddeall bod dros fil o bobl wedi colli eu bywydau yn sgil y daeargryn nerthol a ddigwyddodd yn ne-ddwyrain Asia. Y mae llawer mwy o bobl ar goll a rhai wedi'u caethiwo o dan adeiladau a ddinistriwyd gan y daeargryn. Mae'r lluniau a welwyd ar y sgrîn deledu yn dorcalonnus gyda rhai pentrefi wedi'u dileu yn llwyr a hyn oll yn gwneud inni holi, ble mae Duw?

Fe fydd y digwyddiadau trist ac anodd hyn ond yn awgrym pellach i rai nad yw Duw yn bod. Sut gall Duw fod yn Dduw nerthol ac yn Arglwydd sydd yn gofalu trosom pan fo'r holl bethau ofnadwy hyn yn digwydd? Sut gallwn ni ddibynnu ar y fath fugail sydd mor esgeulus o'i braidd? A chlywir eraill yn holi sut gallwn ni bregethu Duw cariad tra bo cymaint o bobl ddiniwed yn cael eu lladd? Pa fath Dduw yw hwn wedi'r cyfan? Mae'n gywilyddus ei fod yn caniatáu y fath ddioddefaint yn y byd a grewyd ganddo. Mewn sefyllfaoedd felly y mae Duw, meddai Vivian Jones, yn medru troi i fod yn fwy o broblem nag o adnodd yn wyneb treialon o'r fath. Fe fydd sawl un yn colli ffydd tra bydd eraill yn magu dicter a chasineb tuag ato am iddo fethu â gofalu amdanom yn ddigonol. Os mai fel hynny yr ydym yn dewis ymateb, honna Vivian Jones ein bod wedi camddeall perthynas y Cristion â Duw ac meddai, "Daethom i mewn i'r byd hwn, rhoddwyd i ni fywyd i'w fyw ynddo, ac nid oes dewis gennym ond derbyn y bywyd hwnnw yn ei holl ogoniant a chymhlethdod ac ansicrwydd a bregusder ac anghyfiawnder. Ond gallwn ddewis sut mae ymagweddu tuag at y cyfan".

Nid oes gennym atebion boddhaol i'r cwestiynau dyrys uchod ond yr hyn a wn i wrth dderbyn bywyd yn ei holl agweddau yw bod Duw gyda ni yn ein dioddefaint a'n poen. Fe brofodd Duw y poen eithaf ar groesbren Calfarî ac o wneud hynny mae'n medru cydymdeimlo â phawb heddiw sydd o dan bwysau bywyd. Mae'n Dduw sydd yn ein nerthu i wynebu pa bynnag ansicrwydd, poen a gofid a ddaw i'n rhan mewn bywyd ac y mae'n medru bod o gymorth inni drawsnewid unrhyw ddicter neu gasineb a deimlwn tuag ato. Nid yw hyn yn golygu y byddwn yn medru diolch i Dduw am bob dim a ddigwydd inni ond fe allwn ddiolch iddo am ei fod gyda ni ym mhob sefyllfa ac ar bob adeg. Ac am hynny bydded inni ganu ei glod o'r newydd eleni eto yn ein Cyfarfodydd Diolchgarwch.

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

CALENDR MIS HYDREF 2009

| Cyhoeddwr y Mis :Eirian Reynolds | Organydd y Mis: Mair Evans | |
|---|---|---|
| 4 Hydref 10.00 | Oedfa Lesotho - Bethel Aberystwyth o dan ofal Miss Joyce Howells a Mrs Paula Thomas. | |
| 11 Hydref 10.00 | Oedfa ddiolchgarwch yng nghmwni Eglwysi Annibynwyr y Cylch yn Noddfa, Bow Street. | |
| 18 Hydref 2.30 | Oedfa bregethu: Gweinidog | Gofal y Te: I'w drefnu |
| 25 Hydref 10.30 | Oedfa bregethu: Y Parchg Peter M. Thomas | |
| 1 Tachwedd 2.30 | Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue |

**I'CH DYDDIADUR**

5 Hydref : Cinio Cymorth Cristnogol : Cytûn Waufawr: 12.00-1.30yp
7 Hydref :Cwrdd Diolchgarwch yng nghwmni Hawys Thomas a fydd yn sôn am ei thaith i Botswana am 7.00yh
14 Hydref : Cinio Cymunedol Neuadd yr Eglwys : Horeb yn gyfrifol am weini.
28 Hydref : Cinio Cymunedol Neuadd yr Eglwys.
21 Hydref : Cymdeithas Bethel am 2.00yp : Rhodri Edwards: "Mwy na Cawl Cennin". Sgwrs am Fwydydd Cymru. Croeso cynnes.
21 Hydref : Cymdeithas y Penrhyn am 7.00yh: Llion Iwan: "Cymeriadau nofelau, ffrwyth y ffeithiol a'r dychmygol"
27 Hydref : Cwrdd Gweddi Misol am 7.30yh
5 Tachwedd : Cyfarfodydd Hanner Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn Llambed.
18 Tachwedd : Cymdeithas Bethel : Atgofion gan y Cyfarwyddwr Ffilm, John Hefin MBE., cyn Bennaeth Drama BBC Cymru a'r gŵr a greodd "Pobl y Cwm".

**LLOFFION**

- Dymuniadau gorau i Mrs Mona Edwards, Mrs Minnie Williams a Nia, merch Peter a Meryl sydd wedi bod yn yr ysbyty
- Rydym yn parhau i gofio yn ein gweddïau am Tirion sydd yn yr ysbyty yn Nhreforys.

**Bedydd**: Os gwyddoch am unrhyw un sydd â diddordeb mewn cael ei f/bedyddio neu am ddod yn aelod byddwch garediced â chysylltu â'r Gweinidog.

**Gair y Dydd** : Os oes unrhyw un am archebu Gair y Dydd am 2010 - £6 am bedwar rhifyn – cysylltwch â Ceris

**Pererindodau:** Mae cyfres newydd am bererindodau yn dechrau ar S4C ar nos Sul 4 Hydref am 8 o'r gloch. "Y Daith" yw enw'r gyfres ac mae Esther Prytherch (Bethel) wedi bod yn gweithio ar ddwy o'r rhaglenni. Y mae'r rhaglen gyntaf am daith Mari Jones i nôl Beibl o'r Bala ac yna ar nos Sul 25ain o Hydref fe fydd rhaglen am bererindod gan aelodau o'r Eglwys Gatholig yng Nghymru i Lourdes yn Ffrainc. Cofiwch wylio!

**Cardiau Nadolig a Cardiau Post Bethel**: Mae pecynnau o Gardiau Nadolig a Chardiau post Bethel ar werth. Pris: 10 Cerdyn Nadolig : £4. 10 Cerdyn Post : £2. Cysylltwch â Judith os hoffech brynu rhai.

**Ysgol Gymunedol Penrhyn-coch:** Cynllun "Bag2School" (Ailgylchu Tecstiliau): Mae'r ysgol wedi trefnu casglu bagiau o ddillad, dillad gwely, llenni, teganau meddal, esgidiau, beltiau a bagiau llaw. Bydd yr ysgol yn derbyn bagiau o'r 5ed i'r 8fed o Hydref. Gellir defnyddio unrhyw fath o fagiau. Bydd yr elw yn mynd tuag at y trydydd byd.